OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 551

## Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004

**Adroddiadau a gwybodaeth**

**12.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i PIC roi adroddiad i'r Cynulliad ar y ffordd y mae wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

(2) Rhaid i PIC gyhoeddi'r adroddiad a wneir o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i PIC hefyd roi unrhyw wybodaeth arall i'r Cynulliad sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau y gall y Cynulliad ofyn amdani.